# Eisteddfod y Dysgwyr

## Learners' Eisteddfod 2018

**Rhestr Testunau | Competition Details**




### Capel Newydd Llandeilo

**23 | Mawrth 2018 | 6 - 10pm**

Dysgu
Learn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

| | Cystadlaethau llwyfan \| Stage Competitions | Lefel |
|---|---|---|
| 1 | **Parti Llefaru** - hyd at 12 mewn nifer, Darn gosod—Glanyfferi | Agored |
| 2 | **Cân Unawd** o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull – hyd at 4 munud | Agored |
| 3 | **Parti Canu** rhwng 5 ac 20 mewn nifer (**gallu cynnwys siaradwyr Cymraeg rhugl**)– unrhyw gân neu gyfuniad o ganeuon o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull – hyd at 5 munud | Agored |
| 4 | **Darn offerynnol** unrhyw ddarn Cymreig (Unigol neu mewn Grŵp) – hyd at 3 munud | Agored |
| 5 | **Grŵp Canu** rhwng 3 a 9 mewn nifer, unrhyw gân neu gyfuniad o ganeuon o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull – hyd at 5 munud | Agored |
| 6 | **Sgets—Fy nosbarth Cymraeg** hyd at 5 munud | Agored |
| 7 | **Cân Deuawd** o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull – hyd at 4 munud | Agored |
| 8 | **Llefaru Unigol** 'Steddfod yn y ddinas Geraint Jarman | Agored |
| 9 | **Côr Dysgwyr** rhwng 21 a 40 mewn nifer, unrhyw gân neu gyfuniad o ganeuon o'ch dewis chi mewn unrhyw arddull – hyd at 5 munud . | Agored |
| 10 | **Oes talent 'da ti?** Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy: ganu, dawnsio, actio, lefaru, dweud jôcs, canu offeryn, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau – UNRHYW BETH fydd yn difyrru'r gynulleidfa | Agored |

| | Cyfansoddi \| Literary Composition | |
|---|---|---|
| 10 | **Y Gadair** Cerdd ar y testun: **'Pellter'** | Agored |
| 11 | **Y Tlws Rhyddiaith** – darn o ryddiaith hyd at 500 o eiriau ar y testun: **'Darganfod'** | Agored |
| 12 | **Sgwrs rhwng 2 berson dros y ffens** – tua 100 o eiriau<br>A conversation between 2 people over the fence – approx. 100 words | Mynediad |
| 13 | **Darn i bapur bro yn hysbysebu digwyddiad** – tua 150 o eiriau<br>A notice to the local paper advertising an event – approx. 150 words | Sylfaen |
| 14 | **Fy hoff Ap** – tua 200 o eiriau | Canolradd |
| 15 | **Llythyr i'w roi mewn capsiwl amser** – tua 300 o eiriau | Agored |
| 16 | **Gwaith unigolyn neu grŵp** – Blog fideo gan unigolyn neu grŵp: 'Fy Ardal' – 5-10 munud o hyd | Agored |

| | Paratoi deunydd ar gyfer dysgwyr | |
|---|---|---|
| 17 | **Gwaith unigol—Tasgau dosbarth yn seiliedig ar dair cân.** | Dysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl |

| | Cystadlaethau Celf \|Art Competitions Thema: 'Y Gwanwyn' | |
|---|---|---|
| 18 | Addurno cacen/teisen | Agored |
| 19 | Llun mewn unrhyw gyfrwng | Agored |
| 20 | Cyfres o 4 ffotograff | Agored |
| 21 | Eitem mewn metel neu bren | Agored |
| 22 | Eitem o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu | Agored |
| 23 | Eitem mewn tecstiliau – gwau, 'crochet', clwtwaith a.y.b. | Agored |

## Darn gosod ar gyfer y parti llefaru: **Glanyfferi**

1.
Glas y bore 'Nglanyfferi'n
Cyffwrdd tywod aber Tywi
A chyn i'r n iwl o'r tonnau ddianc,
Gwelais hi yn groten ifanc
Yn haul yr haf yng Nghlanyfferi.

2.
Yma 'doi hi'n ôl yr hanes
Am hwyl a'r cwmni cynnes,
Pnawn i ffwrdd o'r caeau melyn
I gicio'i sodlau wrth yr ewyn
Yn haul yr haf yng Nglanyfferi.

3.
Dal y trên ym Mhantyffynnon
Tynnu coes a chodi calon,
Bois glo caled mewn hwyl canu,
Bois o'r wlad ddim ond yn gwenu
Ar y ffordd i Lanyfferi.

4.
Pawb i lawr ar lannau Tywi,
Mewn i'r caban, dishgled handi
Nes daw sŵn cadwynau'n winsho,
Lleisiau bois y cwch yn cario
Wrth nesáu at Lanyfferi.

5.
Awn ni dros yr afon sidan
Dros y dŵr i draeth Llansteffan?
Lan i'r castell ar y tyle?
Trochi'n traed cyn troi am adre,
Croesi'n ôl I Lanyfferi?

6.

Lawer haf yn ôl oedd hynny:
Wel'di ben winsh yn rhydu?
Adar môr sy'n galw enwau:
Ambell un yn brifo weithiau
Yng nglas y bore 'Nghlanyfferi.

7.
Does dim lleisiau heddiw'n nesu,
Sŵn cael amser da - gan synnu
Sut oedd amser wedi hedfan
Yntau'r hwyr yn dod mor fuan
'Slawer haf yng Nglanyfferi.

---

## Darn gosod ar gyfer y Llefaru Unigol: Steddfod yn y Ddinas

Gan Geraint Jarman

1. Caru Cymru fel pob Cymro
Ond mae'n anodd bod
Yn naturiol yn y petha
Wrth im fynd a dod.
Ond daeth rheswm i'm bodolaeth
Draw lir stad o dai;
Hen ddiwylliant yn Llanedeyrn
Cariad yn cryfhau.

2. Steddfod yn y ddinas
A'r haid yn hawlio'r hwyl
Y pentwr draw ym Mhentywyn
Yn sweltran yn yr hwyl;
Steddfod yn y ddinas
A'r stryd yn llawn Cymraeg
Y dyrfa draw yn Tito's
Yn solet fel y graig.

3. Gweld derwyddon yn eu gwisgoedd
Mewn bws yn gwibio draw
Rhai yn gwenu, rhai 'n cynganeddu
Am y gwynt a'r glaw;
Beirdd yn canu am eu cyswllt
Am eu hieuenctid ffôl;
Roedd hwn i mi heb ddim amheuaeth
Yn steddfod roc a rôl.

4. Steddfod yn y ddinas
A'r haid yn hawlio'r hwyl
Y pentwr draw ym Mhentywyn
Yn sweltran yn yr hwyl;
Steddfod yn y ddinas
A'r stryd yn llawn Cymraeg
Y dyrfa draw yn Tito's
Yn solet fel y graig.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ceredigion, Powys a Sir Gâr**
**Ceredigion, Powys & Carmarthenshire**

I gystadlu (pob cystadleuaeth) rhaid i chi lenwi'r ffurflen isod a'i hanfon at Anika Lloyd cyn **5 Mawrth 2018** neu e-bostio'r manylion isod ati. Bydd rhagbrofion i'r cystadlaethau llwyfan os bydd llawer yn cystadlu. Rhaid i'r gwaith celf gyrraedd Capel Newydd Llandeilo cyn 3pm ar ddiwrnod yr Eisteddfod, sef 23 Mawrth 2018.

To compete (in all competitions) you must complete the form below and send it to Anika Lloyd by **5 March 2018,** or simply email her the details below. We may need to hold a preliminary round for stage events should there be a large number of contestants. Artwork must arrive at the Eisteddfod at Capel Newydd Llandeilo before 3pm on 23 March 2018.

**Anika Lloyd, Cydlynydd Dysgu Cymraeg, Swyddfa Menter Brycheiniog, Heol Cilgant, Llandeilo, Sir Gâr SA19 6HW | 01558 825342 | ail@aber.ac.uk**

| |
|---|
| **Enw \| Name:** |
| **E-bost \| Email:** |
| **Rhif Ffôn \| Phone Number:** |
| **Enw'r Gystadleuaeth \| Competition Name:**<br>1. |
| 2. |
| 3. |
| 4. |
| 5 |
| **Ffug Enw \| Pseudonym:** |
| **Dosbarth a Thiwtor \| Class and Tutor:** |
| **Lefel \| Level:**<br>Mynediad: |
| Sylfaen: |
| Canolradd: |
| Uwch: |

PRIFYSGOL
ABERYSTWYTH
UNIVERSITY